

# Stori Mari Jones

Ganed Mari Jones yn 1784. Roedd yn byw gyda'i rhieni ym mhentref Ty'n-ddol yng ngogledd Cymru. Roedd ei theulu'n dlawd ac yn gorfod gweithio'n galed iawn i wneud bywoliaeth. Roedd gan Mari lawer o dasgau fel golchi a glanhau i'w gwneud.

Pan oedd Mary tua 9 oed, agorodd ysgol yn ei heglwys. Teulu Cristnogol oedd teulu Mari ac roedd hi eisoes yn mynd i'r eglwys bob wythnos gyda'i rhieni. Roedd yn mwynhau canu emynau a gwrando ar straeon o'r Beibl. Dysgodd ddarllen yn yr ysgol. "Ysgol deithiol" oedd yr ysgol, wedi ei sefydlu gan ŵr o'r enw'r Parchedig Thomas Charles. Offeiriad oedd y Parch Thomas Charles a oedd yn awyddus i blant ddysgu darllen er mwyn iddynt ddeall y Beibl. Oherwydd bod yr ysgol, yr athro a'r llyfrau'n symud i bentref arall ymhen tri mis, roedd rhaid i Mari ddysgu darllen yn gyflym.

Datblygodd Mari'n ddarllenwr da ac roedd wrth ei bodd yn darllen y Beibl. Ond ni allai ei theulu fforddio prynu Beibl. Cymraeg oedd iaith y teulu, a Beiblau Saesneg oedd mwyafrif y Beiblau. Roedd Beiblau Cymraeg yn ddrud iawn, ond penderfynodd Mari gynilo i brynu Beibl Cymraeg.

Roedd rhaid i Mari wneud pob math o waith i ennill arian

- gweithio ar ffermydd
- gwau sanau
- gwerthu wyau a mêl
- tyfu llysiau

Nid oedd plant yn cael arian poced y dyddiau hynny, ond gadawodd ei rhieni iddi gadw'r arian a enillodd. Yn y cyfamser, byddai Mari'n cael darllen Beibl ei ffrind. Daliodd ati i gynilo trwy'r amser er mwyn gallu prynu ei Beibl ei hun.

O'r diwedd, ar ôl chwe blynedd, roedd ganddi ddigon o arian i brynu Beibl. Ond roedd rhaid iddi gerdded i'r Bala i weld y Parchedig Thomas Charles i'w nôl. Roedd honno'n daith o tua 25 milltir! Ond roedd ganddi hi a'i theulu ffydd yn Nuw i ofalu y byddai'n cyrraedd yn ddiogel.

Yn y Bala, roedd Mari mor drist pan gafodd wybod nad oedd dim Beiblau Cymraeg ar ôl. Yna, dywedodd y Parch Thomas Charles wrthi fod ganddo un copi ar gael. Roedd wedi cadw Beibl Cymraeg i rywun oedd yn gallu darllen Cymraeg a Saesneg, ac roedd ganddo Feibl Saesneg yn barod. Roedd Mari mor hapus. Cyrhaeddodd adref yn ddiogel a chael croeso mawr gan ei rhieni a'i ffrindiau.

Gwnaeth Mari argraff fawr ar y Parchedig Charles oherwydd ei bod wedi gweithio mor galed ac mor hir i ennill digon o arian i brynu'r llyfr sanctaidd. Aeth i Lundain lle'r oedd Beiblau Cymraeg yn cael eu hargraffu a dywedodd ei hanes wrth bobl yno. Roeddent hwythau hefyd wedi eu synnu'n fawr. Yn fuan wedi hynny sefydlwyd cymdeithas i alluogi argraffu Beiblau mewn gwahanol ieithoedd am bris rhesymol fel bod unrhyw un yn y byd yn gallu eu darllen.